

Compton Group

Proffil y Cwmni

Grŵp Compton yw enw masnachu cwmnïau amrywiol sydd o dan reolaeth Teulu Ballard yn Abertawe. Mae busnes entrepreneuraidd y Grŵp, a ddechreuodd fel cwmni adeiladu tai yng nghanol y 1950au, wedi'i seilio'n bennaf ar ddatblygu eiddo ynghyd â buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Mae Grŵp Compton hefyd wedi buddsoddi ers sawl blwyddyn yn yr ymchwil fiotechnoleg a wneir mewn Prifysgolion yng Nghymru. Yma, maen nhw'n ceisio masnacheiddio allbwn ymchwil lwyddiannus trwy fanteisio'n fasnachol ar eiddo deallusol, yn nodweddiadol trwy gyntundebau trwydded ar ôl i gais am batent gael ei gyflwyno.



Dr Ahmed Ali yn ynysu cemegau bioactif o ddarnau Boswellia frereana.

Cydweithredu â BEACON

Mae gan Grŵp Compton hanes hir o ymchwilio i natur gemegol thus o wahanol darddiadau. Resin aromatig a geir o goed yw thus. Mae pedair prif rywogaeth Boswellia sy'n cynhyrchu thus a resin, ac mae pob un ar gael ar wahanol raddau. Mae ansawdd cynhyrchion naturiol, fel thus, yn dibynnu ar gyfansoddiad penodol gwahanol gyfansoddiad cemegol sy'n bresennol, oherwydd rhoddir gwerth uwch i rai cyfansoddiad gan fod, er enghraifft, gweithgareddau biolegol penodol yn cael eu priodoli i un cyfansoddyn yn y gymysgedd.

Roedd Grŵp Compton yn chwilio am ddull gwell o wahanu'r cyfansoddiad unigol mewn thus trwy dîm BEACON.

“ Roedd y gwaith a wnaed gan dîm BEACON wedi'i gwblhau'n gyflym ac i safon uchel iawn. Bydd y canlyniadau a gafwyd o'r prosiect gwahanu hwn yn gwneud cyfraniad hollbwysig i helpu Grŵp Compton a'n cwmnïau partner yn yr Unol Daleithiau i symud y datblygiad ymlaen tuag at fasnacheiddio. Yn ystod 2014, bwriadwn gynnal profion gwenwyndra ar yr echdynnyn newydd, gyda'r nod o symud ymlaen i dreialon clinigol. ”

*Andrew Davidson,
Rheolwr Gyfarwyddwr*

Y dull traddodiadol a ddefnyddir i wahanu cyfansoddiad sy'n debyg yn gemegol yw cromatograffi, lle y caiff cyfansoddiad gwahanol eu cadw ar gam solet i raddau amrywiol cyn cael eu hechluo yn y cam toddydd. Ar ôl mynd trwy'r system gromatograffi, bydd gwahanol ffractsiynau'n cynnwys mwy o'r cyfansoddiad penodol hyn.

Trwy ddefnyddio cromatograffi awtomataidd, sy'n monitro holl gyfansoddiad yr ecludydd, gwahanwyd cyfansoddiad allweddol thus ar lefel burdeb o fwy na 99.9%. Cadarnhawyd strwythur y cyfansoddyn targed mwyaf gwerthfawr gan ddefnyddio Sbectrosgopeg Cyseinedd Magnetig Niwclear (NMRS). Yn ôl Grŵp Compton, lleihawyd y gofyniad amser ar gyfer gwahanu 96%.

compton
group

I gael mwy o wybodaeth am fenter Grŵp Compton, ewch i www.comptongroup.com